## Cyflwyniad

1. Dechreuais fy swydd fel Comisiynydd Safonau cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Comisiynydd Safonau) 2009 ("y Mesur"), ar 1 Rhagfyr 2010, ar ôl cael fy mhenodi gan y Cynulliad yn dilyn cystadleuaeth agored.

2. O dan y Mesur, mae fy swydd, yn syml iawn, yn gyfrifol am geisio diogelu safonau, ond mae hefyd yn golygu cymryd rhan yn y gwaith o hyrwyddo ac annog y safonau ymddygiad uchaf posibl gan Aelodau'r Cynulliad wrth iddynt ymgymryd â'u swyddi cyhoeddus pwysig.

3. Yn gyntaf, mewn cysylltiad â hyn, rwyf wedi hybu diwylliant lle rydym i gyd yn gyfrifol am yr ymddygiad gorau posibl, sef ein bod i gyd yn ymdrechu i gadw a gwella enw da'r Cynulliad Cenedlaethol a'i Aelodau, a byddaf yn parhau i hybu hyn, ac nad fy ngwaith i yw bod yn elyn i unrhyw Aelod, ac yn bendant nid i'r Cynulliad.

4. Ni fyddaf, fodd bynnag, yn gwneud llai na gorfodi'r safonau yn gadarn, a byddaf, pan fydd angen hynny, yn dwyn ymchwiliad ar unrhyw Aelod.

5. Yn ail, rwyf yn awyddus i chwalu unrhyw syniad bod safonau yn cael eu cadw mewn blwch a gaiff ei arddangos ar ddyddiau gŵyl a gwyliau. Nid yw'r safonau priodol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn ddewisol nac yn cael eu cadw ar gyfer achlysuron arbennig. Maent yn rhan annatod o fodolaeth yr Aelodau pan maent ar fusnes y Cynulliad, a dylent ddod yn ail natur i bob un yn gyflym iawn, os nad ydynt eisoes.

6. Yn drydydd, ond nid yn olaf, mae hawl gan yr etholwyr i ddisgwyl safonau uchel gan eu cynrychiolwyr. Mae fy swydd yn golygu sicrhau bod y cyhoedd yn gallu defnyddio dull o gwyno sy'n dwyn i gyfrif pan fydd angen ac sy'n ymdrin â materion mewn ffordd sy'n hawdd ei defnyddio ac sy'n effeithiol iddynt hwy.

7. Mae'n briodol, yma, fy mod yn cydnabod mai ychydig iawn o gwynion a gafodd eu dwyn yn erbyn ymddygiad Aelodau'r Cynulliad yn ystod rhan olaf y Trydydd Cynulliad, fel y gwelir o'r wybodaeth a ganlyn, ac na chafodd yr un ohonynt heddiw eu derbyn.

8. Rwyf yn ddiolchgar iawn am y croeso a gefais gan bob Arweinydd Plaid ac Aelodau'r Cynulliad, ac am yr ymateb cadarnhaol i'm canfyddiad o fy swydd fel y nodir yn gryno uchod. Rwyf bob amser ar gael i helpu neu i

drafod materion gydag unrhyw Aelod, yn gyfrinachol pan fo hynny'n briodol.

9. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn, sy'n ofynnol gennyf yn ôl y Mesur, yn ymdrin yn gryno â'r materion oedd yn nwylo'r Comisiynydd blaenorol, ond dim ond amser byr fy mhenodiad i y cyfeiria ato, o fis Rhagfyr 2010 i ddiwedd mis Mawrth 2011. Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn anarferol oherwydd y refferendwm yng Nghymru, ac yn fwy felly gyda diddymu'r Cynulliad a'r etholiadau sydd wedi tocio ar batrwm busnes arferol y Cynulliad. Ymddengys yn briodol, felly, i roi adroddiad sy'n cwmpasu sesiwn olaf y Trydydd Cynulliad.

10. Yn y dyfodol, bwriadaf gyflwyno fy Adroddiad Blynyddol i'r Cynulliad ym mis Gorffennaf, i gynnwys y flwyddyn hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn.

11. Am flynyddoedd lawer, mae Richard Penn, fy rhagflaenydd, wedi ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad. Cefais fudd o'i gyngor pan ddechreuais yn fy swydd ac rwyf wedi gallu gweld â'm llygaid fy hun yr amrywiaeth o faterion yr ymdriniodd â hwy. Rwyf yn siwr fy mod yn siarad ar ran pawb yn y Cynulliad a'r Comisiwn wrth nodi ein diolch i Richard am ei waith rhagorol yn y maes pwysig hwn.

**Gerard Elias QC**
**Y Comisiynydd Safonau**

**Hydref 2011**

# Cwynion

### Rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2010

12. Rhwng 1 Ebrill a 30 Tachwedd 2010, cafodd Richard Penn, y Comisiynydd Safonau ar y pryd, bump o gwynion.  Roedd y pump yn ymwneud â honiadau o dorri'r Cod Ymarfer ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, ond ni chawsant eu derbyn.  Nid oedd yr un gŵyn yn aros pan ddaeth penodiad Richard Penn fel Comisiynydd Safonau i ben ar 30 Tachwedd 2010.

### Rhwng mis Rhagfyr 2010 a mis Mawrth 2011

13. Mae Tabl 1 yn dangos y cwynion a gafwyd rhwng mis Rhagfyr 2010 a mis Mawrth 2011.

**Tabl 1 Cwynion a gafwyd (Rhagfyr 2010 – Mawrth 2011)**

| Cwynion a gafwyd | Cwynion derbyniol | Cwynion annerbyniol | Cwynion a gariwyd ymlaen i 2011-12 |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 4 | 8 |

14. Yn ystod fy nghyfnod yn y swydd, rhwng mis Rhagfyr 2010 a mis Mawrth 2011, cafodd 12 o gwynion a chwynion cyntaf eu cofnodi.  Gwrthodais bedair o'r rhain fel rhai annerbyniol.  Parhaodd fy ymchwiliadau i'r wyth arall tan 2011-12.  Byddaf yn cyflwyno adroddiad ar dderbynioldeb y rhain yn fy Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf.

# Gweithgareddau eraill

15. Ym mis Chwefror, yn ogystal ag ymdrin â chwynion, bûm i a Jeff Cuthbert AC, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar y pryd, yn gwneud cyflwyniad i gyfarfod o Public Affairs Cymru.

16. Ym mis Mawrth, siaradais mewn cyfarfod o Gomisiynwyr Safonau o Loegr, Iwerddon a'r Alban, a bwriadaf gadw mewn cysylltiad agos â hwy.

17. Yng nghyfarfod olaf y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn y Trydydd Cynulliad, cyflwynais adroddiad a oedd yn awgrymu y dylai pwyllgor tebyg a benodir yn y Pedwerydd Cynulliad ystyried adolygu'r Cod Ymarfer a'r Rheolau Sefydlog perthnasol, a chymeradwywyd yr amodau ynddo; ystyried cynigion i gynnwys darpariaethau safonau perthnasol

mewn un llyfryn; ac, o brofiad, ystyried y gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynnion, o ran Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd.

# Gwariant

### Rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2010

18. Rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2010, y gwariant ar swydd y Comisiynydd Safonau oedd £17,836. Mae hyn yn cynnwys y ffioedd a dalwyd i'r Comisiynydd ar y pryd, ac ad-dalu treuliau a dalodd wrth wneud ei waith. Nid yw hyn yn cynnwys costau staff cymorth, a gyflawnwyd fel rhan o ddyletswyddau eraill staff Comisiwn y Cynulliad, ac ni chawsant eu cofnodi ar wahân.

### Rhwng mis Rhagfyr 2010 a mis Mawrth 2011

19. O dan amodau'r Mesur, y Comisiwn sy'n gyfrifol am sicrhau bod y tâl a'r lwfansau y cytunwyd arnynt o dan amodau a thelerau fy mhenodiad, ac unrhyw gyfrifoldebau rhesymol sy'n berthnasol i'm dyletswyddau, er enghraifft cyflogi staff yn uniongyrchol, sicrhau y caiff nwyddau neu wasanaethau eu darparu neu dalu lwfansau neu dreuliau unrhyw un sy'n rhoi tystolaeth neu sy'n cynhyrchu dogfennau, yn cael eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae Tabl 2 yn nodi'r gwariant hwn ar gyfer y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2010 a mis Mawrth 2011.

**Tabl 2 Gwariant (Rhagfyr 2010 – Mawrth 2011)**

| Mis | Oriau gwaith | Cyfanswm costau'r oriau gwaith (£) | Tâl cadw blynyddol (£) | Cyfanswm costau bob mis (£) | Teithio a chynhaliaeth[1] (£) | Cyfanswm costau bob mis (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhag -10 | 22.50 | 1,080 | 425 | 1,505 | 0 | **1,505** |
| Ion -11 | 27.75 | 1,332 | 425 | 1,757 | 0 | **1,757** |
| Chwef -11 | 22.00 | 1,056 | 425 | 1,481 | 0 | **1,481** |
| Maw -11 | 17.50 | 840 | 425 | 1,265 | 0 | **1,265** |
| **Cyfanswm costau** | **89.75** | **£4,308** | **£1,700** | **£6,008** | **£0** | **£6,008** |

20. Mae fy swydd yn cael cymorth gweinyddol a chyflenwol cyfrinachol gan staff Comisiwn y Cynulliad, fel rhan o ddyletswyddau dau aelod o staff. Caiff yr holl amser a gaiff ei dreulio yn darparu cymorth i'm swydd ei gofnodi ar wahân. Mae Tabl 3 yn dangos costau'r cymorth hwn.

[1] *Ad-delir costau teithio a chynhaliaeth yn unol â Llawlyfr Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

**Tabl 3 Cymorth a gafwyd gan staff (Rhagfyr 2010 - Mawrth 2011)**

| Mis | Oriau amser y staff | Cyfanswm costau'r oriau gwaith[2] (£) | Teithio a chynhaliaeth (£) |
|---|---|---|---|
| Rhag -10 | 4.5 | 81 | 0 |
| Ion -11 | 4.8 | 86 | 0 |
| Chwef -11 | 1.8 | 32 | 0 |
| Maw -11 | 7.0 | 161 | 0 |
| **Cyfanswm costau** | **18.0** | **£360** | **£0** |

21. Felly, cyfanswm y gwariant ar fy swydd tra roeddwn yn fy swydd yn ystod pedwar mis olaf 2010-11, gan gynnwys costau staff, oedd £6,368, sef cyfartaledd o £1,592 y mis.

## Gwariant blynyddol 2010-11

22. Yn ei adroddaid ar gyfer y cyfnod rhwng 15 Mawrth 2005 a 31 Rhagfyr 2009, mae Richard Penn yn nodi costau ei swydd, gan gynnwys y tâl cadw blynyddol, teithio a threuliau eraill a dalwyd wrth ymgymryd â'i ddyletswyddau fel Comisiynydd Safonau.[3] Cyfartaledd costau blynyddol swydd y Comisiynydd Safonau yn ystod y cyfnod hwn, ac eithrio'r amcangyfrif o amser y staff, oedd £18,998.[4] Mae Richard Penn yn amcangyfrif mai cyfartaledd costau blynyddol y cymorth staff oedd oddeutu £10,250, gan arwain at gyfartaledd costau ar gyfer swydd y Comisiynydd Safonau o £29,248 y flwyddyn.

23. Cyfanswm y gwariant ar gyfer swydd y Comisiynydd Safonau yn 2010-11, ac eithrio costau cymorth staff, oedd £23,844.

24. Mae Tabl 4 yn dangos bod y gwariant gan swydd y Comisiynydd Safonau yn 2010-11, ar y cyfan, yn unol â'r hyn oedd mewn blynyddoedd a fu.

---

[2] *Cynhwysir argostau staff.*
[3] *Adroddiad Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y Cyfnod rhwng 15 Mawrth 2005 a 31 Rhagfyr 2009, http://www.assemblywales.org/report_of_commissioner_for_standards_2005-09_e.pdf*
[4] *Mae gwariant rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr 2005 wedi cael ei addasu i amcangyfrif y costau pe bai'r flwyddyn galendr lawn wedi cael ei chynnwys.*

**Tabl 4 Gwariant blynyddol**

| | Cyfartaledd y gwariant blynyddol (2005-09) | Gwariant (2010-11) |
|---|---|---|
| Ac eithrio costau staff | £18,998 | £23,844 |
| Yn cynnwys costau staff | £29,248[5] | £31,037[6] |

## Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

25. Rwyf yn ddiolchgar iawn i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, ac yn arbennig i Jeff Cuthbert AC, y Cadeirydd ar y pryd, ac i John Grimes, y Clerc, am y cymorth gwirioneddol a roddwyd i mi wrth ymgiprys â'm swydd. Diolch iddynt hwy, roedd y profiad yn llawer llai poenus nag y gallai fod wedi bod.

## Amrywiol

26. Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r Comisiwn ac i Claire Clancy, ei Brif Weithredwr, am sicrhau bod y swyddfa a'r trefniadau gweinyddol sydd eu hangen i gyflawni fy swyddogaethau wedi cael eu darparu mor ddidrafferth.

27. Mae Helen Finlayson, fy Nghynorthwyydd (a oedd ar gael yn ôl yr angen) wedi darparu cymorth ardderchog wrth baratoi'r adroddiad hwn, fel gyda fy hoff waith arall, a hoffwn ddiolch o galon iddi.

[5] *Yn seiliedig ar gyfartaledd costau staff o £10,250 y flwyddyn, fel y nodir ym mharagraff 15 o Adroddiad y Comisiynydd Safonau ar gyfer y cyfnod rhwng 15 Mawrth 2005 a 31 Rhagfyr 2009.*
[6] *Yn cynnwys amcangyfrif costau ar gyfer mis Ebrill i fis Tachwedd 2010 yn seiliedig ar amcangyfrif o gostau staff o £10,250 y flwyddyn, a gwir gostau staff rhwng mis Rhagfyr 2010 a mis Mawrth 2011.*

iii. nad yw'n ddienw a'i bod yn nodi pwy yw'r achwynydd yn glir mewn modd sy'n golygu y gellir cyfathrebu ymhellach ag ef/hi;

iv. yw'n nodi'n glir pwy yw'r Aelod Cynulliad sy'n destun y gŵyn;

v. y'i gwneir o fewn blwyddyn o'r dyddiad pan allai'r achwynydd fod wedi dod yn rhesymol ymwybodol o'r ymddygiad y cwynir yn ei gylch; ac

vi. yw'n ymddangos bod digon o sylwedd i gyfiawnhau ymchwiliad pellach (h.y. mae digon o dystiolaeth i awgrymu bod yr ymddygiad dan sylw wedi digwydd, a phe bai hynny'n cael ei brofi, gallai olygu bod yr Aelod heb gydymffurfio ag unrhyw un o ofynion Rheolau Sefydlog 16.1(i).

## 4. Cam yr ymchwiliad ffurfiol

4.1 Yn ystod y cam hwn, caiff y Comisiynydd ymchwilio i gŵyn dderbyniol gyda'r bwriad o:

i. sefydlu'r ffeithiau mewn cysylltiad a pha un a yw'r Aelod perthnasol wedi ymddwyn yn y modd a nodir gan y gŵyn ai peidio; a

ii. dod i gasgliad o ran a yw Aelod, o ganlyniad i'r ymddygiad hwnnw, wedi methu â chydymffurfio ag un o'r materion a nodir yn Rheol Sefydlog 16.1(i).

4.2 Pan fo gwaith ymchwilio ffurfiol i gŵyn wedi'i gwblhau, bydd y Comisiynydd yn llunio adroddiad i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Bydd yr adroddiad yn cynnwys:

i. manylion y gŵyn;

ii. manylion yr ymchwiliad a gynhaliwyd gan y Comisiynydd;

iii. y ffeithiau y daeth y Comisiynydd o hyd iddynt mewn cysylltiad â pha un a yw'r Aelod perthnasol wedi ymddwyn yn y modd y cwynwyd yn ei gylch ai peidio;

iv. y casgliad y daeth y Comisiynydd iddo o ran pa un a yw'r Aelod hwnnw, o ganlyniad i'r ymddygiad hwnnw, wedi methu â chydymffurfio ag un o'r materion a nodir o fewn Rheol Sefydlog 16.1(i); ond

v. ni fydd yn mynegi unrhyw farn o ran pa sancsiwn fyddai'n briodol ar gyfer unrhyw fethiant i gydymffurfio.

4.3 Ni fydd adroddiad sy'n casglu bod Aelod wedi methu â chydymffurfio ag un o'r materion o fewn Rheol Sefydlog 16.1(i) yn cael ei gyflwyno gerbron y

Heddlu yn unol â'r protocol y cytunwyd arno gyda'r Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron.

6.2 O dan amgylchiadau o'r fath, bydd yr holl waith o ystyried y gŵyn o dan y weithdrefn hon yn cael ei atal dros dro nes bod yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron neu'r Llysoedd wedi cwblhau eu gwaith.

6.3 Bydd y Pwyllgor, yr Aelod perthnasol a'r Achwynydd yn cael eu hysbysu o unrhyw benderfyniad i gyfeirio cwyn at yr Heddlu.

6.4 Cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl i'r Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron neu'r Llysoedd orffen ystyried cwyn, caiff y Comisiynydd baratoi adroddiad i'r Pwyllgor yn nodi:

i. manylion y gŵyn;

ii. manylion unrhyw ymchwiliad a gynhaliwyd gan y Comisiynydd hyd at y pwynt lle y cyfeiriwyd y gŵyn at yr Heddlu;

iii. unrhyw ffeithiau a ganfuwyd gan y Comisiynydd neu a ddarparwyd gan yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron neu'r Llysoedd;

iv. unrhyw gasgliadau y daeth y Comisiynydd iddynt, yn seiliedig ar y dystiolaeth a oedd ar gael ar y pryd, o ran pa un a yw'r Aelod wedi methu â chydymffurfio ag un o'r materion a nodir yn Rheol Sefydlog 16.1(i) ai peidio; a

v. pa un a yw'r gŵyn yn codi unrhyw faterion o egwyddor gyffredinol, ym marn y Comisiynydd.

6.5 Caiff y Pwyllgor gyfarfod yn breifat i ystyried adroddiad y Comisiynydd o dan baragraff 6.4 uchod. Yn ystod y cyfarfod, gall y Pwyllgor benderfynu:

i. gwrthod y gŵyn;

ii. gwrthod y gŵyn ond ystyried unrhyw egwyddorion cyffredinol sy'n codi ohoni; neu

iii. barhau i ystyried y gŵyn.

6.6 Lle bo'r Pwyllgor yn gwrthod cwyn, gall gyhoeddi adroddiad o'i ystyriaethau cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl iddo ddod i benderfyniad, a'i osod gerbron y Cynulliad ochr yn ochr ag adroddiad y Comisiynydd i'r Pwyllgor o dan baragraff 6.4 y weithdrefn hon.

v. y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac y dylid gwahardd yr Aelod rhag gweithrediadau'r Cynulliad am gyfnod penodol.

7.12 Cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl i'r Pwyllgor ddod i benderfyniad, ond nid cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl darparu copi o adroddiad y Pwyllgor i'r Aelod sy'n destun cwyn, bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi adroddiad o'i ystyriaethau ac yn ei osod gerbron y Cynulliad ynghyd ag adroddiad y Comisiynydd i'r Pwyllgor. Yn yr achosion hynny lle y mae'r Comisiynydd wedi argymell y dylid ystyried adroddiad yn breifat, a lle nad oes methiant i gydymffurfio neu os gwrthodir achos, gall y Pwyllgor benderfynu y dylid tynnu enwau unigolion o'r adroddiad.

7.13 Lle y mae'r Llywydd yn hysbysu'r Pwyllgor bod apêl wedi'i wneud o dan adran 8 isod, ni fydd y Pwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad nac yn ei osod gerbron y Cynulliad nes bod y gwaith o ystyried yr apêl wedi'i gwblhau.

## 8. Y Weithdrefn apelio

8.1 Lle y mae'r Pwyllgor wedi canfod bod Aelod wedi methu â chydymffurfio, ac nad yw'r Pwyllgor yn argymell y dylid gwrthod y gŵyn, gall yr Aelod sy'n destun y gŵyn apelio i'r Llywydd o fewn 10 diwrnod gwaith o'r dyddiad pan ddaw copi o adroddiad y Pwyllgor i'w law.

### Sefydlu panel apêl a chyfansoddiad y panel

8.2 Ar bob achlysur, caiff y Llywydd sefydlu panel i ystyried yr apêl yn unol â threfniadau y bydd yn cytuno arnynt o bryd i'w gilydd gyda'r Pwyllgor Safonau. Bydd y Panel yn cynnwys pedwar Aelod Cynulliad a pherson annibynnol â chymhwyster yn y gyfraith nad yw'n Aelod Cynulliad nac yn aelod o staff y Cynulliad. Bydd pob un o Aelodau'r Cynulliad yn cael eu tynnu o'r gwahanol grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad, cyn belled a bo hynny'n bosibl.

8.3 Ni chaiff Aelodau'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y Llywydd na'r Dirprwy Lywydd, y Prif Weinidog nac arweinwyr grwpiau gwleidyddol, achwynydd na thyst fod yn Aelod o banel apêl.

### Ystyried apelau

8.4 Ni chaiff apelau eu hystyried ar y seiliau canlynol:

i. os yw casgliadau'r Pwyllgor yn seiliedig ar anghywirdebau ffeithiol sylweddol nad oedd y Pwyllgor yn ymwybodol ohonynt, ond tasent wedi bod

hysbysu'r Aelod a'r achwynydd, er bod methiant i gydymffurfio wedi'i ganfod, na fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd yn erbyn yr Aelod.

10.2 Os oes cwyn yn erbyn y Cadeirydd, gall y Comisiynydd argymell i aelod o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a enwebwyd gan y Pwyllgor, weithredu yn y cyswllt hwn. Bydd Clerc y Pwyllgor yn gofalu bod aelod o'r Pwyllgor yn cael ei enwebu at y diben hwnnw.

10.3 O dan amgylchiadau o'r fath, nid oes gofyn i'r Comisiynydd adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Safonau heblaw am i argymell unrhyw gamau y gallai bod yn angenrheidiol i'w cymryd er mwyn egluro neu ddehongli rheolau er gwybodaeth ar gyfer y dyfodol. Lle nad yw'r Comisiynydd yn dewis adrodd yn ôl yn y modd hwn, ni fydd angen nodi enw'r Aelod na'r achwynydd.

## 11. Adroddiad blynyddol

11.1 Caiff y Comisiynydd baratoi adroddiad blynyddol, i'w gynnwys yn adroddiad blynyddol y Pwyllgor, yn nodi cyfanswm yr achosion a wrthodwyd yn ystod y cam rhagarweiniol, ynghyd â gwybodaeth arall a chasgliadau cyffredinol, y cred y Comisiynydd sy'n berthnasol neu y gall y Pwyllgor fod ei angen o bryd i'w gilydd.

**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
**3 Mehefin 2008**

